TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Dyfarniad mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu Lefel 4



**Yn gryno**

Os oes gennych staff sy'n gyfrifol am gynnal ansawdd asesu yn eich sefydliad neu eich canolfan asesu, dyma'r cymhwyster perffaith iddynt. Byddant angen cymorth gweithiwr IQA ychwanegol yn eich sefydliad i'w mentora, a dylent feddu eisoes ar gymhwyster asesydd (e.e. A1/2, D32/33, TAQA).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...pawb sydd mewn rôl sicrhau ansawdd ac sy'n cynorthwyo dau asesydd o leiaf.

**Cynnwys y cwrs**

Ar y cwrs, bydd y dysgwyr yn astudio cynllunio dilysu mewnol, strategaethau samplu a thechnegau safoni, ac yn mynd i'r afael â phrosesau sicrhau ansawdd. Gan weithio un-i-un gyda gweithwyr proffesiynol profiadol, bydd modd i'r dysgwyr ddatblygu eu prosesau sicrhau ansawdd mewnol eu hunain i weddu i'ch busnes.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Uned 1 – Deall Egwyddorion ac Arferion Sicrhau Ansawdd Asesu yn Fewnol. Bydd yr uned hon yn helpu'r dysgwyr i ddeall yr egwyddorion a'r arferion sy'n perthyn i sicrhau ansawdd mewnol.

Uned 2 – Sicrhau Ansawdd Asesu yn Fewnol. Nod yr uned hon yw asesu perfformiad y dysgwyr o ran sicrhau ansawdd asesu yn eich sefydliad neu eich canolfan asesu.

**Gofynion Mynediad**

Dylai'r dysgwyr feddu eisoes ar gymhwyster asesydd (e.e. A1/2, D32/33, TAQA).

**Gwybodaeth Ychwanegol**